**From:**
**Sent:** 29 October 2024
**To:**
**Subject:** Bwletin Newyddion: Datganiad ar farwolaeth Ian Edwards, pennaeth The Celtic Collection ac ICC Cymru

# Newyddion diwydiant Croeso Cymru

**Newyddion i'r Diwydiant Twristiaeth yng Nghymru**

I gofrestru ar gyfer ein cylchlythyr, cliciwch yma.

**29 Hydref 2024**

---

---

## Datganiad ar farwolaeth Ian Edwards, pennaeth The Celtic Collection ac ICC Cymru

Â chalon drom, rydym yn talu teyrnged i Ian Edwards, prif weithredwr The Celtic Collection ac ICC Cymru.

Dyma ddywedodd Rebecca Evans AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn ei theyrnged i Ian:

> "Roedd Ian yn arweinydd ysbrydoledig i ddiwydiant twristiaeth Cymru ac yn ei gynrychioli â gweledigaeth. Roedd ei gyfraniad at y diwydiant yng Nghymru'n aruthrol. Roedd yn aelod allweddol o Fforwm yr Economi Ymwelwyr ac ef oedd cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar fwrdd VisitBritain.
>
> "Roedd ei angerdd dros Gymru yn sbardun i dwristiaeth a lletygarwch yng Nghymru ac roedd ei gyfraniad dros gyfnod y pandemig yn hwb anferth i adferiad y diwydiant.
>
> Rwy'n cydymdeimlo'n ddidwyll â'i deulu, ei ffrindiau a phawb fu'n gweithio ag e."

Roedd uchelgais diwyro Ian i Gymru yn y byd yn allweddol i ddod â digwyddiadau mawr rhyngwladol i Gymru, gyda'r Celtic Manor Resort yn croesawu Cwpan Ryder yn 2010 ac Uwchgynhadledd NATO yn 2014.

O dan arweiniad Ian, mae'r Celtic Manor Resort wedi tyfu i fod yn un o brif gyrchfannau hamdden a busnes Ewrop gan ddenu digwyddiadau uchel iawn eu proffil. Gweledigaeth Ian sbardunodd twf diweddar The Celtic Collection gan sicrhau bod ICC Wales yn lleoliad o fri ar gyfer denu cynadleddau a digwyddiadau rhyngwladol i Gymru gan ddod â manteision i economi gyfan Cymru.

Meddai Jason Thomas, Cyfarwyddwr Twristiaeth, Marchnata, Digwyddiadau a Chreadigol:

> "Roedd Ian yn frwydrwr diflino dros yr economi ymwelwyr yng Nghymru, a oedd mor annwyl iddo. Roedd yn ŵr proffesiynol i'r carn, a'r person roeddwn wastad yn meddwl amdano wrth glywed y geiriau "key stakeholder". A dyna beth oedd e! roedd ganddo ran ymhob peth. Rhoddodd o'i amser a'i ynni a gwneud gwahaniaeth. Gwnâi i bethau ddigwydd. Mae pob person busnes yn gwybod bod ei waddol yn dibynnu ar sut mae cyflwr y busnes y mae'n ei adael yn cymharu â'i gyflwr pan gymerodd yr awenau. Wel, mae Ian yn gadael y wlad gyfan mewn cyflwr gwell nag oedd hi. Dwi'n cydymdeimlo â'i deulu, ei ffrindiau a'i gydweithwyr."

Fel arweinydd busnes uchel iawn ei barch, bydd Ian yn gadael gwaddol hir ym maes twristiaeth a lletygarwch yn y DU a thu hwnt. Mae Llywodraeth Cymru'n cydymdeimlo'n ddwys â'i deulu, ei ffrindiau a'i gydweithwyr. Mawr fydd y golled ar ei ôl.

---

---

# Mynnwch yr wybodaeth ddiweddaraf drwy newyddion y diwydiant

Edrychwch ar gylchlythyrau a bwletinau a gyhoeddwyd yn flaenorol i'r diwydiant gan Croeso Cymru: [Cylchlythyrau/Bwletinau Twristiaeth | Drupal (llyw.cymru).]()

---

Gallwch ddiweddaru eich tanysgrifiadau, newid eich cyfrinair neu eich cyfeiriad e-bost, neu ddileu tanysgrifiadau ar unrhyw adeg drwy fewngofnodi i'ch cyfrif.

Anfonwyd yr e-bost hwn at Email Address gan ddefnyddio GovDelivery, ar ran: Llywodraeth Cymru